

# COOMBE TENNANT, WINIFRED MARGARET ('Mam o Nedd '; 1874 - 1956); cennad i gynulliad cyntaf Cynghrair y Cenhedloedd, un o 'ferched y bleidlais, meistres gwisgoedd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a chyfethrydd (medium) enwog

**Enw:** Winifred Margaret Coombe Tennant

**Ffugenw:** Mam O Nedd

**Dyddiad geni:** 1874

**Dyddiad marw:** 1956

**Priod:** Charles Coombe Tennant

**Plentyn:** Daphne Tennant

**Plentyn:** Henry Tennant

**Plentyn:** Alexander Tennant

**Plentyn:** Christopher Tennant

**Rhiant:** Mary Pearce-Serocold (née Richardson)

**Rhiant:** George Edward Pearce-Serocold

**Rhyw:** Benyw

**Galwedigaeth:** cennad i gynulliad cyntaf Cynghrair y Cenhedloedd, un o 'ferched y bleidlais, meistres gwisgoedd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a chyfethrydd (medium) enwog

**Maes gweithgaredd:** Gwrthryfelwyr; Eisteddfod; Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

**Awdur:** Graham Lloyd Rees

Ganwyd yn unig blentyn George Edward Pearce-Serocold a'i ail wraig Mary Richardson, o Dderwen Fawr, Abertawe. Yn 1895, priododd Charles Coombe Tennant, ac aethant i fyw i Cadoxton Lodge, Llangatwg, ger Castell-nedd. Daeth hi, felly, yn ferch-yng-nghyfraith i Gertrude Barbara Rich Collier, ac yn chwaer-yng-nghyfraith i Dorothy Coombe Tennant, a brawd [H.M. Stanley](#), y fforiwr enwog.

Yn ystod Rhyfel Byd I yr oedd hi'n is-gadeirydd Pwyllgor Amaethyddol y Merched dros Sir Forgannwg a gwasanaethodd fel cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Rhyfel dros Gastell-nedd a'r cylch. Apwyntiwyd hi'n Ynad Heddwch yn 1920 ac eisteddodd ar fainc Sir Forgannwg - y wraig gyntaf i wasanaethu yno. O 1920 hyd at 1931, yr oedd yn un o'r Ymwelwyr Swyddogol i garchar Abertawe, ac yn gyfrifol am gyflawni rhai gwelliannau sylweddol yn nhriniaeth y carcharorion, e.e. ymladdodd y wraig hynod hon i gael caniatâd i'r carcharorion gael raseli diogel yn Abertawe yn lle bod rhaid iddynt dyfu barf. Fel canlyniad, fe fabwysiadwyd y gwelliant trwy'r deyrnas ymhen blynnyddoedd.

Ym myd gwleidyddiaeth, yr oedd hi'n Rhyddfrydwraig selog ac yn edmygu [Lloyd George](#) yn fawr iawn. Yn 1922 bu'n ymgeisydd am sedd fel A.S. dros Fforest y Ddena, ond methodd ei hennill. Y cysylltiad â ' [L.G.](#) ' a oedd yn gyfrifol am ei hapwyntio yn un o'r cynrychiolwyr i'r Cynghrair y Cenhedloedd newydd - y fenyw gyntaf o Brydain. Ond trodd Winifred Coombe Tennant yn genedlaetholwraig frwd ymhen amser, a daeth yn flaenllaw yng Ngorsedd y Beirdd. O dan yr enw ' Mam o Nedd ' hi oedd Meistres y Gwisgoedd, a gadawodd swm o arian i'r Orsedd yn ei hewyllys, a phapurau yngl n â'r Orsedd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Bu'n gadeirydd Adran Gelf a Chreffft yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1918, ac fe'i hetholwyd hi yr un flwyddyn i fod yn aelod o bwyllgor o ugain, i ymchwilio posibiliadau sefydlu llywodraeth ffederal i Gymru. Heblaw hyn oll, yr oedd Winifred Coombe Tennant yn fam i bedwar o blant, sef Christopher, Daphne, Alexander a Henry. Ond rhyw ddeunaw mis bu Daphne byw, a bu'r ergyd ysigol hon yn gyfrifol am droi Mrs. Coombe Tennant i gyfeiriad byd yr ysbrydion. Yr oedd yn hawdd iddi wneud hynny am fod chwaer-yng-nghyfraith arall, sef Eveleen, yn briod â F.W.H. Myers a sefydlodd, gyda Henry Sidgwick, y Gymdeithas Ymchwil Seicigol. Yr oedd Mrs. Coombe Tennant yn gyfethrydd hynod o dalentog, ond ni wyddai'r byd mo hynny, y tu allan i gylch bach o ffrindiau agos, nes ar ôl iddi farw. Ar hyd y blynnyddoedd, bu'n gyfethrydd i Syr Oliver Lodge ac eraill megis Gerald Balfour, o dan y ffugenw ' Mrs. Willett '. Mae llawer ysgrif am ei chyfethryddiaeth yn *Jnl. of the Society for Psychological Research* a chasgliad o ysgrifau *postmortem* yr honnwyd iddynt ddod oddi wrthi drwy law Geraldine Cummins (cyfethrydd arall) yn y gyfrol *Swan on a black sea* (gol. Signe Toksvig, 1970).

Yr oedd yn bersonoliaeth liwgar a chynnes, yn meddu ar argyhoeddiadau personol dwfn ac yn wrol ei safiad drostynt. Gwnaeth lu o gyfeillion yn ei gwlad fabwysiedig a mawr oedd ei diddordeb yn niwylliant Cymru, er na lwyddodd yn hollol i feistrolï'r Gymraeg.

Bu farw 31 Awst 1956, yn ei chartref yn 18 Cottessmore Gardens, Kensington. Gorch-mynnodd nad oedd blodau na gwisgoedd galar i fod yn ei hangladd. Ar Fedi 7 cynhaliwyd gwasanaeth coffa amdani yn eglwys yr Holl Saint ger y T r lle y cynrychiolwyd Undeb Bedyddwyr Cymru gan [James Nicholas](#) a'r Cymmrodorion gan [Syr John C. Cecil-Williams](#).

## Awdur

Yr Athro Graham Lloyd Rees

## Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

*The Times*, 1, 8, 21 Medi 1956

Emyr Wyn Jones, Winifred Coombe Tennant: 'Mam o Nedd' mawr ei nodded, *Y Traethodydd*, Cyf. CLI 1996, tt. [40-53](#), [85-103](#)

## Darllen Pellach

Peter Lord, *Winifred Coombe Tennant: a life through art* (Aberystwyth 2007)

Robert Laker, 'Geneva in Motion: Winifred Coombe Tennant's Experiences at the Third Assembly of the League of Nations', (Traethawd MA: Prifysgol Abertawe, 2020)

Erthygl Wicipedia: [Winifred Coombe Tennant](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [17002072](#)

Wikidata: [Q8025380](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

